Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Chymru Greadigol

Cymru Greadigol
Creative Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Pwrpas

Pwrpas y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw nodi'r cytundeb partneriaeth rhwng Cymru Greadigol a Chyngor Celfyddydau Cymru. Wrth wraidd hyn mae ein cyd-weledigaeth o feithrin sectorau celfyddydau a chreadigol cynaliadwy a chynhwysol yng Nghymru, sydd â'r amrediad amrywiol o sgiliau a gwytnwch i oroesi.

Rhagwelir mai'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn fydd y cam cyntaf mewn cydweithrediad hirdymor rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Chymru Greadigol. Er y bydd yn canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth a amlinellir isod, bydd hefyd yn cefnogi'r ethos o weithio mewn partneriaeth ar gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg. Mae'r ddau sefydliad wedi ymrwymo i sicrhau dull Partneriaeth Gymdeithasol rhwng Cymru Greadigol, Cyngor Celfyddydau Cymru, Undebau Llafur a Chyflogwyr.

Fel cyrff cyllido, byddwn yn cyfarfod yn ffurfiol bob chwarter o leiaf. Yn y cyfarfodydd hyn, byddwn yn trafod yr hyn y gellir ei gyflawni ar y cyd a byddwn yn ymateb mewn ffordd ystwyth i anghenion y sectorau a gefnogir gennym, gan ganolbwyntio ar y meysydd gwaith sy'n cyd-fynd yn agos. Pan fo'n berthnasol, byddwn yn cyd-greu cynlluniau sy'n ategu ei gilydd ac yn adeiladu ar arbenigedd a phrofiad cymharol y ddau sefydliad.

# Cymru Greadigol

Mae Cymru Greadigol yn asiantaeth datblygu economaidd yn Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r diwydiannau creadigol sy'n tyfu'n gyflym yng Nghymru. Rydym yn canolbwyntio ar hyrwyddo twf ar draws Teledu, Ffilm ac Animeiddio; Gemau, VFX ac Ôl-gynhyrchu; Cerddoriaeth a Chomedi a Chyhoeddi, gan osod Cymru fel un o'r lleoedd gorau yn y byd i fusnesau creadigol ffynnu.

Rydym yn buddsoddi mewn creu cyfleoedd i bobl yn y diwydiant drwy gefnogi mentrau sgiliau a thalent ar gyfer pobl ifanc a'n gweithlu talentog; rydym yn ariannu prosiectau sy'n hybu seilwaith a busnesau creadigol, yn darparu cyngor arbenigol ac yn mynd ati i hyrwyddo cynaliadwyedd, amrywiaeth a chydraddoldeb, a'r Gymraeg i bawb ar draws y sectorau creadigol.

Rydym yn frwd dros gefnogi doniau lleol a denu prosiectau creadigol rhyngwladol i Gymru. Drwy wneud hynny, rydym yn cryfhau'r diwydiant yn y tymor hir ac yn creu cyfleoedd cyffrous ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory.

Mae ein cylch gwaith a'n blaenoriaethau yn cynnwys:

- **Sgrin (Ffilm a Theledu)** – Parhau i fuddsoddi a sefydlu Cymru fel y lleoliad gorau ar gyfer cynyrchiadau ffilm a theledu o ansawdd uchel. I wneud hyn, byddwn yn taro cydbwysedd rhwng cefnogi cynyrchiadau cynhenid, buddsoddi mewn cynyrchiadau mawr sy'n dod i mewn, a buddsoddi mewn sgiliau, datblygu talent a seilwaith.

- **Cerddoriaeth** – Cefnogi'r seilwaith cerddoriaeth ar lawr gwlad, a darparu cymorth dan arweiniad y diwydiant i wella llwybrau at yrfaoedd hyfyw yn y diwydiant cerddoriaeth.

- **Digidol** – Cymorth i grewyr cynnwys creadigol sy'n manteisio ar dechnoleg, gan ganolbwyntio ar animeiddio a gemau.

- **Cyhoeddi** – Cymru Greadigol sydd â'r brif berthynas â Chyngor Llyfrau Cymru.

- **Sgiliau** – Cefnogi'r gwaith o ddarparu mentrau sgiliau a hyfforddiant ar draws y sector yn gyffredinol, gan sicrhau bod y llwybrau talent i'r sector diwydiannau creadigol a thrwyddo mor effeithiol â phosibl.

- **Marchnata a Hyrwyddo** – Bydd Cymru Greadigol yn parhau i arwain y gwaith o farchnata a hyrwyddo'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i'r byd, a hynny drwy frand newydd Cymru Greadigol. Drwy'r brand newydd, byddwn yn hyrwyddo'r cyfraniad y mae'r sector creadigol yn ei wneud i'n henw da ac i'n llwyddiant byd-eang.

- **Polisi** – Arwain y gwaith o ddatblygu'r modd y mae Cymru Greadigol yn cyflawni blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru ar feysydd fel partneriaeth gymdeithasol, gwaith teg, cynaliadwyedd, hyrwyddo'r Gymraeg a chydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal â bod yn gyfrifol am bolisi darlledu a chyfryngau Llywodraeth Cymru.

# Cyngor Celfyddydau Cymru

Ni yw'r corff swyddogol sy'n ariannu ac yn datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Drwy ein gwaith, rydym yn ei gwneud yn bosibl i'r celfyddydau fod yn bresennol ym mywydau pobl Cymru – gan wella llesiant, cysylltu cymunedau, ac ysbrydoli ein gilydd – ar gyfer nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym yn cefnogi artistiaid, grwpiau cymunedol, cynulleidfaoedd a sefydliadau i greu gwaith a chyrraedd cynifer o bobl â phosibl. Daw'r arian a ddosbarthwn gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o'n cyllid yn mynd i artistiaid a sefydliadau celfyddydol sy'n cynnal rhaglenni gwaith ledled Cymru.

Y celfyddydau yn ein cylch gwaith yw dawns, syrcas, carnifalau, gwyliau, cerddoriaeth (gan gynnwys cyfoes, gwerin, opera a chlasurol), celfyddydau gweledol, celfyddydau cymhwysol, llenyddiaeth, digidol, theatr, celfyddydau cymunedol, celf perfformio, ffilm a ffurfiau celfyddydol trawsbynciol. Mae gennym hefyd gyfrifoldeb dros leoliadau, canolfannau celf ac orielau. Mae rhai o'r meysydd hyn yn themâu trawsbynciol gyda Chymru Greadigol (gweler isod).

Bydd Cynllun Strategol newydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn cael ei gyhoeddi yn 2024 ac mae'n seiliedig ar y chwe egwyddor a ddatblygwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar gyfer Adolygiad Buddsoddi 2023. Maent wedi'u cynllunio i adlewyrchu agweddau ar y sector y mae angen gweithredu'n gadarnhaol arnynt ac sy'n cael eu llywio'n agos gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dyma'r chwe egwyddor: Creadigrwydd; Ehangu Ymgysylltiad; Y Gymraeg; Cyfiawnder Hinsawdd; Meithrin Talent; a Thrawsnewid.

Pan rydym o'r farn fod angen ymyriad strategol – er enghraifft, os oes bylchau yn y ddarpariaeth neu i ymyrryd yn rhagweithiol i greu sector celfyddydau tecach a mwy cynaliadwy – rydym yn datblygu ac yn darparu ein prosiectau ein hunain. Mae mentrau fel Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, partneriaethau Celfyddydau ac Iechyd gyda byrddau iechyd, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r gwaith ehangu ymgysylltiad gydag Amgueddfa Cymru yn ein helpu i berswadio sefydliadau eraill y tu hwnt i'r sector i gymryd diddordeb yn y celfyddydau er mwyn cyflawni blaenoriaethau allweddol y Llywodraeth ar y cyd.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys y celfyddydau yn ei holl ffurfiau, ond mae ein buddsoddiad yn canolbwyntio ar fudd cyhoeddus ac ar y meysydd sy'n fwy tebygol o fod angen cymhorthdal cyhoeddus.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn elusen annibynnol, a sefydlwyd gan Siarter Frenhinol yn 1994.

# Themâu Trawsbynciol

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru a Chymru Greadigol yn cydnabod ac yn dathlu rhyng-gysylltiad y diwydiannau creadigol a'r sector celfyddydau yng Nghymru, a gwyddom fod llwyddiant a gwytnwch y naill yn dibynnu ar y llall. Drwy gymorth datblygu gan Gyngor Celfyddydau Cymru, gall artist arbrofi a mentro gyda'i greadigrwydd, a all wedyn arwain at sgript ar gyfer ffilm neu nofel newydd arloesol, a gefnogir yn ei dro gan Gymru Greadigol. Yna, gall y ffilm neu'r nofel hon fod yn sail i weithdy cyfranogol dan arweiniad y gymuned, gyda chefnogaeth un o'r sefydliadau celfyddydol a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Yna, gellir ysbrydoli person ifanc sy'n cymryd rhan yn y gweithdy hwn i chwilio am yrfa yn y diwydiant ffilm neu'r diwydiant creadigol yn ehangach. Mae'r berthynas symbiotig hon yn gylch rhinweddol sy'n arwain at ddiwylliant cynaliadwy a bywiog.

Mae Cymru Greadigol a Chyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a thrwy wneud hynny rydym yn edrych tuag at y tymor hir ac at ffordd fwy cydweithredol o weithio. Mae pob un o Saith Nod y Ddeddf a'r Pum Ffordd at Weithio yn hanfodol i'r hyn rydym yn wneud, a phwy rydym yn ei gefnogi, a hefyd i sut rydym yn gwneud hynny. Maent yn ein harwain i ystyried effaith hirdymor penderfyniadau, ac i gynnig llwybr lle gallwn ni weithio'n well gyda phobl, cymunedau a chyda'n gilydd. Mae ein gwaith yn cael ei yrru i sicrhau *Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu*.

# Meysydd o gyd-flaenoriaeth a'n hymrwymiadau i gydweithio

Yma, rydym yn nodi'r meysydd a'r dulliau gweithredu cyffredin a sut rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd i sicrhau newid.

- **Gweithwyr Llawrydd**
  Mae'r ddau sefydliad yn cydnabod bod llawer o'r economi greadigol yng Nghymru – yn y diwydiannau creadigol a sector y celfyddydau – yn dibynnu'n drwm ar bobl hunangyflogedig a phobl sy'n gweithio'n llawrydd. Gwyddom hefyd fod Covid a'r argyfwng costau byw wedi effeithio'n ddifrifol ar y gweithlu hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn cydnabod natur gweithio ar draws sectorau o fewn yr ecoleg lawrydd, ynghyd â'r sgiliau sy'n berthnasol i'r ddau sector.

  **Blaenoriaeth:** **Bydd Cymru Greadigol a Chyngor Celfyddydau Cymru yn parhau i gydweithio ochr yn ochr â'r undebau creadigol i gefnogi gweithwyr llawrydd ac i sicrhau bod cysylltiad strategol rhwng cyfleoedd. Mae hyn yn cynnwys cefnogi uchelgeisiau'r Addewid Gweithwyr Llawrydd a ddatblygwyd yn gyntaf fel rhan o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol.**

- **Amrywiaeth a Chynhwysiant**
  Mae'r ddau sefydliad wedi ymrwymo i godi safonau ac i wella amrywiaeth a chydraddoldeb ar draws y ddau sector, ar gyfer pob gweithiwr, gan gynnwys gweithwyr llawrydd. Rhaid i hyn gynnwys datblygu ymrwymiadau gan yr holl bartneriaid o ran cynhwysiant, gwaith a chyflog teg ac arferion gweithio. Gwyddom fod y data'n dweud bod tan-gynrychiolaeth ddybryd mewn sawl agwedd ar y sector.

  **Blaenoriaeth:** **Rhaid i'r ystadegau moel hyn sbarduno cynllun sydd wedi'i gysylltu'n strategol er mwyn cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant. Byddwn hefyd yn cyd-fuddsoddi mewn ymchwil a thystiolaeth i fonitro ac olrhain cynnydd o fewn y sectorau.**

- **Sgiliau**
  Mae'r ddau sefydliad yn buddsoddi mewn llwybrau datblygu doniau creadigol ar wahanol gamau ac maent wedi ymrwymo i godi safonau a chefnogi mwy o broffesiynoldeb yn y sector. Er enghraifft, mae'r gwaith y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei wneud mewn ysgolion yn rhoi cip cynnar iawn ar feddwl yn greadigol, sgiliau a gyrfaoedd. Mae Cymru Greadigol yn cefnogi gwaith cyntaf am dâl yn y sector creadigol drwy bartneriaethau hyfforddiant a lleoliadau. Mae cyfle i gael golwg gyfannol ar sut gall ein buddsoddiadau helpu i gefnogi a hyrwyddo potensial llwybr gyrfa cynaliadwy ar draws sectorau creadigol yng Nghymru, lle gall y rheini sy'n gweithio ym maes Teledu a Ffilm hefyd ystyried gwaith yn y sector celfyddydau ac i'r gwrthwyneb. Byddwn yn gweithio tuag at well cydraddoldeb a chydraddoldeb cyflogau rhwng y ddau sector a thuag at wella cyflogau yn sector y celfyddydau.

  **Blaenoriaeth:** **Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ganfod gorgyffwrdd a chyfleoedd ar gyfer sgiliau yn y sectorau celfyddydau a chreadigol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio ar y cyd i ystyried a deall goblygiadau Deallusrwydd Artiffisial ar y sectorau diwylliannol a chreadigol, er mwyn manteisio ar gyfleoedd ac i liniaru effeithiau negyddol.**

- **Rhyngwladol**
  Mae cydweithio rhyngwladol yn ffordd bwysig i ni wireddu ein nodau ein

hunain a'n nodau cyffredin, yn ogystal â nodau Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â hyrwyddo diwylliant a gwerthoedd Cymru yn rhyngwladol, rydym eisiau creu cyfleoedd i sefydliadau ac unigolion yn y sector celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, yn ogystal â busnesau a gwyliau perthnasol, allu dysgu oddi wrth bartneriaid rhyngwladol, rhannu arferion â nhw, a gweithio gyda nhw, a masnachu'n fyd-eang er mwyn bod yn well ac yn fwy cynaliadwy. Hoffem wneud hyn mewn modd creadigol a chyfrifol.

**Blaenoriaeth:** **Byddwn yn rhannu gwybodaeth, yn canfod ac yn gweithio gyda'n gilydd ar gyfleoedd rhyngwladol ar gyfer ein gwaith a'n blaenoriaethau ar y cyd. Er enghraifft, cydweithio ar arddangosfeydd rhyngwladol creadigol ac ymweliadau a chyfnewidiadau strategol. Byddwn yn gwneud hyn yn unol â strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru, dan arweiniad Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.**

Byddwn yn cydweithio ar draws y ffurfiau canlynol:

- **Cerddoriaeth**
  Mae'r ddau bartner yn fuddsoddwyr yn y sector cerddoriaeth yng Nghymru. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cefnogi cerddorion, gwneuthurwyr cerddoriaeth, creu cerddoriaeth a chynulleidfaoedd ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar gynnig cyfleoedd i bobl gymryd rhan a chyflawni eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir. Mae Cymru Greadigol yn canolbwyntio ar ddatblygu'r diwydiant cerddoriaeth – y gwaith rheoli, y gweithlu cefn llwyfan, labeli, asiantau, lleoliadau ar lawr gwlad – y seilwaith sydd ei angen ar gyfer sector cerddoriaeth broffesiynol gynaliadwy ac amrywiol o Gymru.

  **Blaenoriaeth:** **Gyda'n gilydd, byddwn yn gweithio i wneud yn siŵr bod ein buddsoddiadau cydfuddiannol yn cefnogi llwybr datblygu talent sy'n gallu cefnogi artistiaid amrywiol a gweithlu cefn llwyfan o'r hwb cyntaf hwnnw i yrfa gerddorol gynaliadwy, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid a'r sefydliadau hynny yr ydym yn eu cyllido er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau a chreu cyfleoedd i gyflawni hyn. Byddwn hefyd yn cydnabod heriau byd eang, fel symudedd artistiaid wrth deithio a chyflwyno cerddoriaeth a sut rydym yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd.**

- **Digidol**
  Mae'r ddau sefydliad yn cefnogi'r gwaith a'r gweithwyr sy'n creu cynnwys creadigol digidol. I Gymru Greadigol, mae'r ffocws hwnnw ar animeiddio a gemau a photensial masnachol y sectorau hyn. I Gyngor Celfyddydau Cymru, rydym wedi gweld newid yn y ffordd y mae artistiaid a sefydliadau eisiau gwneud gwaith a'r hyn y mae cynulleidfaoedd eisiau ei brofi a'r sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen i alluogi hyn. Ar draws ein sectorau, mae trawsnewid digidol yn newid y modd y mae cynulleidfaoedd a defnyddwyr (a phwy ydyn nhw) yn dod i wybod am brofiadau creadigol, yn cael mynediad atynt ac yn cymryd rhan ynddynt.
  Gall olygu mwy o gyfleoedd ar gyfer cyfranogiad a mynediad cynhwysol. Mae'n cynnig cyfleoedd i weithio'n rhyngwladol yn ogystal ag yn fwy cynaliadwy. Drwy weithio i ddod â seilwaith technoleg a sgiliau technegol a chreadigrwydd ac arloesedd artistig ynghyd, byddwn yn cynyddu'r siawns o ddarganfyddiadau 'o'r radd flaenaf' ac yn cefnogi llwybrau i ddatblygu cynulleidfaoedd ac i fasnacheiddio fwy.

  **Blaenoriaeth:** **Pan fo budd i'r sectorau creadigol ehangach, buddsoddi a phartneru mewn arloesedd digidol artistig cynhwysol sydd â mesurau diogelu ar waith ar gyfer y gweithlu, gan ystyried materion sy'n ymwneud â defnyddio Deallusrwydd Artiffisial a'r angen i ddatblygiadau fod welliannau gwirioneddol o ran digidoleiddio a**

**thechnoleg. Yn enwedig lle mae hynny'n cefnogi datblygu talent gynhwysol, cynnwys arloesol a mynediad at gynulleidfaoedd a marchnadoedd (gan gynnwys rhai rhyngwladol).**

**Blaenoriaeth:** **Bydd cyllid datblygu gan Gymru Greadigol yn cael ei flaenoriaethu i gefnogi'r syniadau arloesol hynny sydd â'r potensial i gael eu defnyddio'n fasnachol. Caiff Cyngor Celfyddydau Cymru eu hannog i ganfod unrhyw ddarpar artistiaid a gweithwyr y tu ôl i'r llwyfan a allai elwa.**

- **Ffilm**
  Mae ffilm yn gyfrwng artistig pwysig ac yn ddiwydiant masnachol sy'n tyfu. Mae'r ddau bartner yn fuddsoddwyr yn y sector. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn canolbwyntio ar gefnogi doniau o Gymru i gyflawni eu potensial – o brofiadau cyntaf fel cynulleidfa ffilmiau, i ddeall am ffilm fel ffurf artistig, i ddatblygu sgiliau yn y sector a gwireddu talent. Mae Cymru Greadigol yn ceisio cefnogi'r ffilmiau hynny sy'n gallu dangos effaith ar economi a diwylliant Cymru, ond hefyd i gefnogi seilwaith a thalent ffilm yng Nghymru, sy'n hanfodol i dwf a llwyddiant y diwydiant yn y dyfodol.

  **Blaenoriaeth:** **Gweithio mewn partneriaeth, i sicrhau bod ffilmiau o Gymru yn cael eu cefnogi o'r cychwyn cyntaf, hyd at ddatblygu, cynhyrchu ac arddangos drwy gyfleoedd cyllido cydweithredol, cynllun rhyngwladol cydlynol ac agwedd gydgysylltiedig at farchnata.**

- **Cyhoeddi ac Ysgrifennu**
  Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ariannu datblygiad awduron yng Nghymru sy'n gweithio ar draws nifer o ffurfiau llenyddol, gan gynnwys barddoniaeth lafar, comics, sgriptiau, nofelau a pherfformiadau. Mae Cymru Greadigol yn cefnogi'r sector cyhoeddi, yn bennaf drwy eu cyllid i Gyngor Llyfrau Cymru. Bydd y ddwy ran hyn o'r sector, drwy weithio ar y cyd, yn sicrhau bod cynulleidfaoedd ac awduron fel ei gilydd yn gallu cael budd o sector amrywiol, creadigol, arloesol a chynaliadwy.

  **Blaenoriaeth:** **Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio i gefnogi'r sectorau cyhoeddi ac ysgrifennu yng Nghymru. Bydd unrhyw fentrau dilynol yn cyd-fynd â swyddogaethau penodol datblygu a chefnogi'r sectorau llenyddiaeth a chyhoeddi.**

Byddwn yn ceisio manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau a'n heffaith yn y dulliau canlynol:

- **Marchnata a Chyfathrebu**
  Byddwn yn canfod cyfleoedd i gydweithio i hyrwyddo mentrau, ymgyrchoedd a cherrig milltir sy'n hyrwyddo'r sectorau creadigol a chelfyddydol. Mae Cymru Greadigol yn cynnal ac yn cefnogi digwyddiadau, mae'n weithgar ar Twitter, LinkedIn ac Instagram ac mae ganddo gylchlythyr chwarterol, yn ogystal â swyddogaeth Cysylltiadau Cyhoeddus, ac mae'n croesawu awgrymiadau i weithio gyda'i gilydd gan ddefnyddio'r holl sianeli hyn i hyrwyddo'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol. Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn defnyddio amrywiaeth o lwyfannau i roi gwybod i artistiaid, sefydliadau, a'r rheini sydd am ymgysylltu â'r celfyddydau, am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Byddwn yn ymgysylltu'n uniongyrchol â chymunedau sy'n cael eu tan-gynrychioli er mwyn deall yn well y rhwystrau sy'n bodoli ar hyn o bryd rhag cael gafael ar ein gwybodaeth, a byddwn yn gweithio ar y cyd â'r sector i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd ar gyfer y celfyddydau.

- **Ymchwil**
  Pan fo modd, byddwn yn rhannu setiau data ar dueddiadau sy'n effeithio ar y ddau sector a byddwn yn comisiynu ymchwil sy'n berthnasol i'r ddau sector ac yn gweithio ar y cyd â phartneriaid pan fo hynny'n briodol.

# Cyfnod ac Adolygu

Mae’r cytundeb partneriaeth cychwynnol hwn yn cwmpasu’r cyfnod rhwng mis Mehefin 2023 a mis Mai 2025, gydag adolygiad ffurfiol gan y Cyngor a Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol ar ddiwedd y 12 mis cyntaf. Rhagwelir y bydd yn cael ei adolygu a’i ddiwygio fel y bo’n briodol, i’w adnewyddu ar ddiwedd yr ail flwyddyn am gyfnod pellach. Bydd y meysydd â blaenoriaeth a amlinellir yn y bartneriaeth hon yn cael eu datblygu, eu monitro a’u mesur gyda’r uwch dimau a fydd yn cyfarfod bob chwarter. Bydd y ddwy ochr yn cyfnewid gwybodaeth am brosiectau cyfredol er mwyn canfod a mynd i’r afael ag unrhyw ddiffygion posibl yn y Cyfnod a byddant yn ystyried datblygiadau perthnasol, fel Strategaeth Ddiwylliannol Llywodraeth Cymru.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48632
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg